**ADRODDIAD I'R CABINET**

16 Gorffennaf, 2013

## Aelod Cabinet: Cyng. John Wynn Jones

## Pwnc: Datblygiad Amgueddfa ac Oriel Gwynedd a goblygiadau hyn ar Blas yr Esgob (Neuadd y Dref), Bangor.

## Swyddog Cyswllt: Sioned E Williams / Roland Evans

---

**Y penderfyniad a geisir**

**Rhan A**

- Cymeradwyo'r bartneriaeth newydd gyda Phrifysgol Bangor er mwyn datblygu model gweithredu trawsnewidiol a chynaliadwy newydd ar gyfer Amgueddfa ac Oriel Gwynedd ar sail model prif ganolfan a lloerennau.
- Cymeradwyo'r defnydd o Blas yr Esgob, Bangor (Neuadd y Dref) fel lleoliad newydd ar gyfer Amgueddfa ac Oriel Gwynedd fydd hefyd yn darparu pwynt mynediad at wasanaethau Cyngor Gwynedd a phwynt gwybodaeth twristiaeth.
- Cymeradwyo cyfraniad o £150,000 o'r Gronfa Cydariannu tuag at y prosiect.
- Cefnogi'r cais gwerth £2.6m sydd wedi ei gyflwyno i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer gweithredu'r Achos Busnes newydd.

**Rhan B**

- Cymeradwyo adleoli staff presennol Cyngor Gwynedd sydd wedi eu lleoli ym Mhlas yr Esgob, Bangor i swyddfeydd amgen ym Mangor neu o fewn cyffiniau Bangor / Caernarfon gyda opsiynau i'w datblygu'n llawn a'u cytuno gyda'r Aelodau Cabinet a'r Gwasanaethau perthnasol.
- Bod yr Adran Economi a Chymuned yn ceisio lleihau'r costau adleoli a chostau unwaith ac am byth gymaint â phosib a bod y Cabinet, yn amodol ar fodloni'r Pennaeth Cyllid (mewn ymgynghoriad gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol) ynglŷn ag angen a'r achos busnes, yn cymeradwyo:
  - o Clustnodi cyfanswm o £174,000 i'w ariannu o gronfeydd cyfredol er mwyn 'pontio' cost swyddfeydd amgen fydd hyd at £43,500 y flwyddyn am gyfnod hyd at 4 mlynedd.
  - o Clustnodi hefyd hyd at £25,000 eto o gronfeydd ar gyfer cwrdd â chostau unwaith ac am byth o adleoli staff a chanfod swyddfeydd; yn ogystal â chostau ychwanegol i ddarparu gofod Siop Gwynedd.

---

### Barn yr aelod lleol

*Y Cyng. Gwynfor Edwards:*

---

**Cyflwyniad**

1) Yn ystod cyfarfod Bwrdd Cyngor Gwynedd ar 6 Mawrth 2012, cefnogwyd yr egwyddor o: *Ddatblygu a chytuno ar drefniadau cydweithio ffurfiol gyda Phrifysgol Bangor i ddiogelu a darparu gwasanaethau Amgueddfa ac Oriel Gwynedd (AaOG); a bod cynigion penodol ar gyfer Plas yr Esgob yn cael eu datblygu a'u trafod yn llawn o fewn a thu allan i'r Cyngor fel bod achos busnes cyflawn wedi ei gytuno cyn bod unrhyw benderfyniad terfynol ar y defnydd ohono yn cael ei wneud.*

*2)* Bellach mae'r gwaith datblygu cynigion wedi ei gwblhau ac mae achos busnes cyflawn wedi ei gytuno. Amlygir yr elfennau hyn o fewn yr adroddiad hwn.

**Gweledigaeth**

3) Yn dilyn gwaith ymchwil ac ymgynghori trylwyr, mae gweledigaeth ac amcanion clir wedi eu datblygu ar gyfer y cynllun hwn:
   a) Creu fframwaith a model cynaliadwy i AaOG ar gyfer y tymor hir.
   b) Sicrhau buddsoddiad sylweddol i brif adeilad y Cyngor ym Mangor ac adeilad o bwys hanesyddol cenedlaethol.
   c) Datblygu rôl Bangor fel Dinas Ranbarthol o bwys a chreu cyrchfan treftadaeth a diwylliant gyda Pontio, y Gadeirlan a'r stryd fawr ym Mangor.

**Ystyriaethau perthnasol**

**<u>Rhan A</u>**

**Yr Achos Dros Newid a Rownd 1 Cronfa Treftadaeth y Loteri (CDL)**

4) Rhwng 2009 – 2012 sefydlwyd trefniadau cydweithredol rhwng Prifysgol Bangor a Chyngor Gwynedd gyda phartneriaid allweddol eraill i geisio datblygu'r amgueddfa a'r oriel ar gyfer y dyfodol. Gyda tua £130,000 o nawdd CyMAL (Llywodraeth Cymru) cyllidwyd y bwlch ariannol yng nghyllideb yr Amgueddfa a'r Oriel a datblygwyd nifer o ddogfennau strategol a datblygol.

5) Yn dilyn adolygiad cyflawn o opsiynau, mae'r Achos Busnes 5 achos sydd wedi ei ddatblygu yn amlinellu dyfodol posib i AaOG ym Mhlas yr Esgob ac yn tanlinellu pwysigrwydd cefnogaeth y partneriaid craidd yn ogystal â lledaenu apêl AaOG ar gyfer rhan ddeiliaid presennol a newydd. Mae crynodeb o'r Achos Busnes ar gael ar gais.

6) Mae'r model cyllido sy'n cael ei argymell yn ddibynnol ar barhad cyfraniadau'r partneriaid craidd - Cyngor Gwynedd a Phrifysgol Bangor, yn ogystal â chynhyrchu incwm trwy weithrediad y caffi a'r siop, rhentu ystafelloedd cyfarfod, digwyddiadau, gweithgareddau a chomisiwn ar werthiannau. Mae cadarnhad o arian refeniw parhaol wedi ei dderbyn gan y Brifysgol ac mae trafodaethau llwyddiannus wedi eu cynnal efo Cadw er mwyn partneriaethu i dderbyn cyfraniadau refeniw ar gyfer datblygu treftadaeth cymunedol.

7) Dylid nodi bod y strwythur staffio sy'n cael ei argymell ar gyfer y dyfodol yn medru gweithredu'n hyblyg ac yn ddibynnol ar allu'r gwasanaeth i dargedu grantiau penodol yn ystod oes y prosiect a thu hwnt.

8) Yn dilyn y gefnogaeth gan y Bwrdd ac ar sail achos busnes 5 achos, cyflwynwyd cais datblygol llwyddiannus i Gronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) yn 2012 werth £193,400. Denwyd £158,400 o arian CDL a £25,000 o arian Môn a Menai tuag at y prosiect.

9) Yn ystod Rownd 1 datblygwyd cynlluniau manwl i addasu Plas yr Esgob, ymchwiliwyd i gyflwr casgliadau Amgueddfa ac Oriel Gwynedd, Prifysgol Bangor a Neuadd y Dref a chynhaliwyd sesiynau ymgynghori niferus ar draws Gwynedd.

10) Yn ogystal, datblygwyd Cynllun Gweithredu a Chynllun Dehongli a bydd Strategaeth Ddysgu ar gyfer y datblygiad yn cael ei chynhyrchu yn fuan. Adolygwyd Achos Busnes gwreiddiol y prosiect a llwyddwyd i sicrhau arian cyfatebol gan Môn a Menai gwerth £400,000, mewn egwyddor ac yn ddibynnol ar gymeradwyaeth y Gweinidog.

**Cais Rownd 2 Cronfa Treftadaeth y Loteri**

11) Cyflwynwyd cais ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd a Phrifysgol Bangor i Rownd 2 CDL ar 14 Mehefin 2013. Cyflwynwyd ceisiadau cynllunio yn Ebrill 2013.

12) Mae copi o gais Rownd 2 ar gael ar gais, ond yn fras mae'r gwaith yn cynnwys:
- Ail-ddatblygu Plas yr Esgob i ddehongli Stori Gwynedd a chyfeirio ymwelwyr at safleoedd eraill o fewn y sir yn ogystal â adleoli staff o Blas yr Esgob i swyddfeydd eraill.
- Datblygu cyfres o 'loerennau' i Amgueddfa ac Oriel Gwynedd mewn safleoedd presennol ar draws Gwynedd er mwyn hwyluso mynediad at dreftadaeth a chelfyddydau Gwynedd. Mae esiampl o'r model prif ganolfan a lloerennau i'w weld yn **Atodiad A,**
- Datblygu rhwydwaith treftadaeth i Wynedd er mwyn dehongli 'Stori Gwynedd' ar y cyd.
- Datblygu, hyrwyddo a gweithredu rhwydwaith o wirfoddolwyr yn Amgueddfa ac Oriel Gwynedd ac mewn safleoedd eraill.
- Datblygu casgliadau cudd Bangor a phrosiectau treftadaeth a chelf cymunedol ar draws Gwynedd.

13) Nodir y canlynol fel costau amlinellol ar gyfer Rownd 2:

| **Pennawd** | **Cyfanswm Cost** |
|---|---|
| Costau datblygu pellach | £128,999 |
| Costau cyfalaf | £2,082,610 |
| Costau gweithgaredd | £362,267 |
| Costau prosiect eraill (yn cynnwys gwirfoddolwyr) | £69,198 |
| **Cyfanswm Rownd 2** | **£2,643,074** |

14) Bydd y costau hyn yn cael eu cyllido trwy amryw o ffynonellau gyda Cyngor Gwynedd a'r Brifysgol yn cyfrannu £250,000 yr un.

15) O ran cyfraniad Cyngor Gwynedd mae £100,000 wedi ei flaenoriaethu o dderbyniadau cyfalaf yr Adran a gwneir cais am £150,000 i Gronfa Cydariannu'r Cyngor. Er nad yw hwn yn brosiect Ewropeaidd, gan bod adnoddau Amgylchedd ar gyfer Twf (E4G) y rhaglen Cydgyfeirio bellach wedi eu clustnodi; mae'r weithgaredd yn cydymffurfio ac yn gymwys. Mae'r prosiect hwn hefyd yn cyd-fynd yn gyfan gwbl gydag amcanion y prosiect Cydgyfeirio Ein Treftadaeth a bydd yn fodd o sicrhau cynaladwyedd y buddsoddiadau a wneir trwy'r prosiect hwnnw. Pe byddai'r prosiect yn llwyddo, rydym yn ystyried cyflwyno cais strategol i'r Rhaglenni Ewropeaidd newydd yn 2014 / 2015, allai o bosib fod yn brosiect ôl-weithredol.

16) Ymgeisir am £1.4m oddi wrth gronfa dreftadaeth y loteri ac mae £400,000 wedi ei glustnodi mewn egwyddor, yn ddibynnol ar gymeradwyaeth y Gweinidog, o raglen Adfywio Môn a Menai. Mae cyllideb y prosiect i'w weld yn <u>Atodiad B.</u>

**<u>RHAN B</u>**

17) Gall unrhyw newid i ddefnydd Plas yr Esgob arwain at newidiadau i'r ddarpariaeth gwasanaethau presennol ym Mangor. Eisoes bu modd ail-leoli rhai Swyddogion Gorfodaeth Parcio a Swyddogion Gwasanaeth Darparu, ond mae 25 aelod o staff yn parhau i gael eu lleoli ym Mhlas yr Esgob o'r gwasanaethau Cofrestru, Digartrefedd a Pholisi Cynllunio ar y cyd.

18) Gan nad oes lleoliad ym Mangor o fewn perchnogaeth y Cyngor i adleoli gweddill y gwasanaethau mae angen darganfod adeilad swyddfa newydd ym Mangor a'r cyffiniau neu yng Nghaernarfon.

19) Mae asesiad o opsiynau wedi ei wneud ac mae rhestr fer o opsiynau i'w datblygu ymhellach wedi ei llunio cyn dod i benderfyniad:
   a) Safle Hafod Elfyn (cyn swyddfa'r Cyngor Cefn Gwlad ym Mhenrhosgarnedd): Mae hwn yn ofod allai gartrefu'r holl wasanaethau am gost sy'n adlewyrchu ei faint a'i gyfleusterau. Mae'r adeilad wedi ei leoli ar lwybr bysiau ac mae parcio digonol ar gyfer staff ac ymwelwyr.
   b) Swyddfeydd Stryd y Deon: Gallai'r rhain gartrefu Digartrefedd yn unig gan nad oes modd i'r gwasanaeth hwn gael ei leoli yn Hafod Elfyn.
   c) Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor ger Neuadd y Penrhyn: Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda Chyngor Dinas Bangor er mwyn ystyried lleoli staff un gwasanaeth yma. Mae'r Cyngor Dinas yn y broses o fuddsoddi yn eu swyddfeydd.
   d) Ysbyty Gwynedd, Plas yr Esgob a Chaernarfon: Mae trafodaethau'n parhau er mwyn darparu rhai gwasanaethau o'r lleoliadau hyn.

20) Er y bydd cyllideb presennol Plas yr Esgob yn trosglwyddo, amcangyfrifir mai'r uchafswm cost rhent ychwanegol fydd ei angen ar gyfer cartrefu'r gwasanaethau newydd fydd tua £40,000 os cymeradwyir yr opsiynau mwyaf costus. Os cymeradwyir yr opsiwn mwyaf cost effeithlon, gallai'r swm yma fod tua £15,000. Yn ychwanegol bydd costau darpariaeth rhwydwaith ffôn a TGCh blynyddol o tua £3,500.

21) Yn ogystal â chostau rhent a threthi blynyddol ychwanegol parhaol, bydd angen costau un waith ac am byth ar gyfer adleoli staff ac atgyweirio swyddfeydd. Gobeithir adrodd ar y gost yma i gyfarfod y Cabinet yn dilyn ymchwil pellach, ond gallai fod o leiaf £25,000.

22) Os oes dyhead i ddatblygu Siop Gwynedd ym Mangor; er nad yw'n ddelfrydol ac y bydd yn cyfyngu ar ofod; gellid trafod ymhellach ryddhau lleoliad ym Mhlas yr Esgob ac i staff yr Amgueddfa a'r Oriel ddarparu elfennau o'r gwasanaeth hwn. Mae union natur y gwasanaeth fydd ar gael i'w drafod ymhellach a bydd costau ychwanegol un waith ac am byth ynghlwm â datblygu Siop Gwynedd yn yr adeilad.

23) Cyflwynwyd Adroddiad i'r Tîm Rheoli Corfforaethol ar 22 Mai. Dymuniad y TRhC oedd i'r Adran geisio lleihau'r bwlch ariannol cymaint ag sydd yn bosib gan gynnig pontio'r bwlch am gyfnod gyda'r union swm sydd i'w bontio yn ddibynnol ar fanylion yr achos busnes ac anghenion y Cyngor.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

24) Mae hwn yn brosiect cyffroes sy'n denu buddsoddiad allanol ychwanegol sylweddol i fuddsoddiad 9.5% Cyngor Gwynedd. Mae angen buddsoddiad sylweddol ar Blas yr Esgob er mwyn ei ddiogelu a mae hwn yn brosiect sy'n caniatáu hyn trwy weithio mewn partneriaeth.

25) Bydd Bwrdd ar y cyd yn cael ei sefydlu efo Prifysgol Bangor i reoli'r gwasanaeth yn ystod y cyfnod ariannu CDL gyda'r bwriad o sefydlu corff lled braich er mwyn gweithredu'r amgueddfa ar ran y ddau bartner craidd y tu hwnt i'r cyfnod yma.

26) Er mai Bangor fydd canolbwynt y datblygiad, mae'r prosiect yn cynnig cyfleon pellgyrhaeddol i ddinasyddion ar draws y Sir ymgysylltu efo treftadaeth a chelfyddydau.

27) Er bod goblygiadau ar adleoli gwasanaethau presennol y Cyngor ym Mangor i safleoedd eraill o fewn y ddinas a'r cyffiniau, bydd y prosiect hefyd yn gwella mynediad dinasyddion at holl wasanaethau'r Cyngor ym Mangor trwy ddarpariaeth Siop Gwynedd.

**Camau nesaf ac amserlen**

| Cyfnod Allweddol | Gweithgaredd |
|---|---|
| Mehefin – Medi 2013 | Caffael contractwyr adeiladu hyd at RIBA H |
| Medi 2013 | Penderfyniad HLF + penodi contractwyr adeiladu |
| Medi – Rhagfyr 2013 | Adleoli Gwasanaethau presennol Plas yr Esgob i swyddfeydd newydd |
| Tach. 2013–Rhag. 2014 | Gwaith atgyweirio, adeiladu a dodrefnu ar Plas yr Esgob |
| Medi – Mawrth 2015 | Gosod dodrefn mewnol ac arddangosfeydd |
| Gwanwyn / Haf 2015 | Agoriad swyddogol |
| Medi 2013 – Medi 2016 | Gweithgareddau prosiect HLF e.e. ymgysylltu/addysgu/dehongli ayb |
| 2016 – 2018 | Cytuno ar drefniadau i sefydlu corff lled braich i weithredu AaOG ar ran y Cyngor a'r Brifysgol (ond y ddau gorff yn parhau'n bartneriaid craidd) |

## Barn y swyddogion statudol

## Y Prif Weithredwr:

*"Mae'r trafodaethau ar y datblygiad posib hwn wedi bod ar y gweill ers peth amser ac mae'r buddsoddiad y mae'n medru ei ddenu tuag at ddatblygiad y bu cryn ddisgwyl amdano yn arwyddocaol iawn. Fodd bynnag, dros yr amser hynny, mae'r cyd-destun y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo wedi newid yn ddirfawr. Bellach, mae modd parhau i roi blaenoriaeth i'r mater hwn ond bydd y Cabinet yn ymwybodol iawn bod goblygiadau pendant o roi blaenoriaeth i unrhyw brosiect, a hynny ar adeg lle y bydd yn rhaid torri er mwyn medru ariannu datblygiadau dewisol i'r dyfodol.*

*Y cwestiwn sylfaenol yw'r flaenoriaeth y mae'r Cabinet am ei gynnig iddo ond, yn amodol ar hynny, mae'r argymhellion sydd gerbron yn cynnig llwybr ymlaen."*

## Y Swyddog Monitro:

*'Rwy'n cefnogi'r amod y dylid bodloni'r Pennaeth Cyllid ar yr achos busnes.*

## Y Pennaeth Cyllid:


*Rhan A - Rwy'n derbyn rhesymeg yr awdur fod y cynllun i leoli Amgueddfa ac Oriel Gwynedd yn Neuadd y Dref, Bangor, yn opsiwn prin allasai lwyddo i fod yn fargen ddeniadol i'r ddinas a'r Cyngor, gyda buddsoddiad sylweddol ac incwm refeniw blynyddol ynghlwm a'r prosiect. O ganlyniad, deallaf byddai'r cynllun hwn yn cael blaenoriaeth gan yr Adran Economi a Chymuned dros gynlluniau eraill o ran arian o'r Gronfa Cydariannu, a gyda derbyniadau cyfalaf mae'r Adran o'r farn bydd y gronfa gydariannu yn ddigonol ar gyfer y prosiect a'u blaenoriaethau eraill.*

*Rhan B - Mater i Aelodau'r Cabinet (wedi ystyried cyngor y Tîm Rheoli Corfforaethol a swyddogion perthnasol) yw blaenoriaethu'n briodol, a cadarnhaf pe bai'r Cabinet yn cadarnhau'r flaenoriaeth i'r cynllun i leoli Amgueddfa ac Oriel Gwynedd yn Neuadd y Dref, Bangor, yna byddaf yn gweithredu gyda'r Pennaeth Economi a Chymuned i sicrhau'r £199,000 o gronfeydd cyfredol er mwyn ei ariannu. Rwyf wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi'r penderfyniad drafft (rhan B) gyda'r amod ynglŷn ag angen a'r achos busnes, gan fod amserlen y grant yn mynnu fod hwn yn mynd i'r Cabinet ffurfiol 16/07/13, a ni ellir aros tan Medi.*

## Atodiadau

**<u>Atodiad A</u>**

**Esiampl o'r model prif ganolfan a lloerennau**



**Atodiad B**

**Cyfraniadau cyllidol tuag at Rownd 2 Cronfa Dreftadaeth y Loteri**

| **Disgrifiad** | **Wedi ei sicrhau?** | **Swm** | **Canran** |
|---|---|---|---|
| Môn a Menai | Ydi (dibynnol ar gefnogaeth Gweinidog) | £400,000 | **15%** |
| Prifysgol Bangor | Ydi | £250,000 | **9.5%** |
| Cyngor Gwynedd | Ydi* | £250,000 | **9.5%** |
| Cyngor Celfyddydau | Wedi cael gwahoddiad i gyflwyno cais llawn erbyn Awst 20 2013 | £100,000 | **4%** |
| Cyllid arall | (Clore / Garfield Weston / Cadw / Magnox) i'w cyflwyno Haf 2013 | £158,640 | **6%** |
| Cadw | Ydi | £35,000 | **1%** |
| Amser gwirfoddolwyr | - | £49,400 | **2%** |
| CDL | Mehefin 2013 | £1,400,000 | **53%** |
| **Cyfanswm** | | **£2,643,040** | **100%** |

**£100,000 wedi' flaenoriaethu o dderbyniadau cyfalaf yr Adran a chais am £150,000 i'w gyflwyno i Gronfa Cydariannu'r Cyngor.*